

# Rheolau Cynllun SDA

## RHAGARWEINIAD

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (SDA) yn gyfrifol am y [cynllun cwynion i fyfyrwyr](#). Daeth Rheolau'r cynllun cwynion i fyfyrwyr i rym ar 1 Ebrill 2018. Byddwn yn ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbyniwn ar, neu ar ôl, y dyddiad hwnnw o dan y Rheolau hyn. Os derbyniwyd y gŵyn cyn y dyddiad hwnnw, byddwn yn ymdrin ag ef o dan y [Rheolau a oedd yn berthnasol pan y'i derbyniwyd](#).

Lle rydym yn cyfeirio at [ddarparwyr addysg uwch](#) yn y Rheolau hyn, rydym yn golygu'r darparwyr hynny sy'n aelodau o gynllun SDA. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein [Canllawiau ar Reolau SDA](#).

## 1. Yr hyn rydym yn ei wneud

[Rydym yn adolygu](#) cwynion myfyrwyr yn annibynnol, yn ddiuedd a thryloyw, gan ddefnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu o gwynion i helpu â gwella polisiau ac arferion mewn addysg uwch.

## 2. Pwy all gwyno

- 2.1. Caiff [Myfyrwyr](#) a [chyn-fyfyrwyr](#) gwyno wrthym am eu [darparydd addysg uwch](#).
- 2.2. Myfyriwr yw rhywun sy'n [gofrestredig](#) neu sydd wedi bod yn [gofrestredigmewn darparydd addysg uwch](#), neu sy'n [astudio](#) neu wedi bod yn astudio ar gyfer cymhwyster a ddyfernir gan ddarparydd addysg uwch.
- 2.3. Mae'r term "myfyriwr" yn cynnwys y rheiny sy'n derbyn [hyfforddiant](#) a [phrentisiaid](#).
- 2.4. Ni all myfyrwyr ond cwyno am rai [darparwyr](#) os ydynt, neu os oeddent, ar [gwrs addysg uwch](#).
- 2.5. Nid yw dod â chŵyn atom yn atal myfyriwr rhag cyflwyno achos cyfreithiol yn erbyn y darparydd addysg uwch os yw'n anfodlon â chanlyniad ein hadolygiad.

## 3. Darparydd addysg uwch

- 3.1. Mae darparydd addysg uwch yn dod yn aelod o SDA yn awtomatig os yw'n "[sefydliad cymwys](#)". Diffinnir sefydliad cymwys gan [adran 11 o Ddeddf Addysg Uwch 2004](#).
- 3.2. Bydd darparydd addysg uwch sy'n peidio â bod yn sefydliad cymwys yn parhau i fod yn aelod o SDA am gyfnod o [12 mis ar ôl iddo beidio â bod yn sefydliad cymwys](#). Gelwir y rhain yn "sefydliadau trosiannol".
- 3.3. Gall corff nad yw'n "sefydliad cymwys" [wneud cais i ddod yn aelod o SDA](#) os yw'n bodloni ein [hamodau ar gyfer ymuno](#).
- 3.4. Rhaid i bob aelod o SDA gydymffurfio â'r Rheolau a rhaid i'r gweithdrefnau a'r rheoliadau fod yn gydnaws â'r Rheolau.

## 4. Cwynion y gallwn eu hadolygu

- 4.1. Gall myfyriwr neu gyn-fyfyriwr gwyno wrthym am [unrhyw beth y mae ei ddarparydd addysg uwch wedi'i wneud neu wedi methu â'i wneud](#).
- 4.2. Gall myfyriwr neu gyn-fyfyriwr gwyno wrthym am y darparydd addysg uwch lle mae'n astudio neu wedi astudio.
- 4.3. Gall myfyriwr neu gyn-fyfyriwr gwyno wrthym am y darparydd addysg uwch sy'n dyfarnu'r cymhwyster y mae'r myfyriwr yn, neu wedi, astudio ar ei gyfer.

## 5. Cwynion na allwn eu hadolygu

- 5.1. Ni allwn adolygu cwyn ynglŷn â chais am [fyndiad](#) i ddarparydd addysg uwch oni bai bod yr unigolyn sy'n cwyno yn gyn-fyfyriwr o'r darparydd addysg uwch hwnnw sy'n gwneud cais am gael ei aildderbyn, ac mae'r gŵyn wedi'i [chysylltu'n uniongyrchol â'i amser fel myfyriwr](#).
- 5.2. Ni allwn adolygu cwyn ynglŷn â [barn academiaidd](#) darparydd addysg uwch.

- 5.3. Ni allwn adolygu cwyn am fater sy'n ymwneud â [chyflogaeth myfyriwr](#).
- 5.4. Ni allwn adolygu cwyn am ddarparydd addysg uwch os nad oedd yn aelod pan ddigwyddodd yr hyn y gwnaed y cwyn amdano.
- 5.5. Ni allwn adolygu cwyn oni bai fod y darparydd addysg uwch yn aelod pan [fyddwn yn derbyn Ffurflen Gwyno'r myfyriwr](#).
- 5.6. Ni allwn adolygu cwyn am [sefydliad trosiannol](#) oni bai bod yr hyn y cwynwyd amdano wedi digwydd cyn y dyddiad y daeth yn sefydliad trosiannol.
- 5.7. Ni allwn adolygu cwyn am rywbeth sydd eisoes wedi bod yn destun [achos cyfreithiol](#) mewn llys neu dribiwnlys, oni bai bod yr achos hwnnw wedi'i ohirio.
- 5.8. SDA yw'r [corff datrys anghydfod amgen](#) ar gyfer cwynion mewn addysg uwch. Ni allwn adolygu cwyn am rywbeth sydd eisoes wedi'i ystyried gan gorff arall sy'n datrys anghydfod.
- 5.9. Ni allwn adolygu cwyn a wneir gan [gynrychiolydd personol](#) myfyriwr sydd wedi marw oni bai ein bod wedi [derbyn y Ffurflen Gwyno](#) yn ystod bywyd y myfyriwr.

## 6. Cwynion y byddwn o bosib yn penderfynu peidio eu hadolygu

- 6.1. Gallwn benderfynu peidio ag adolygu cwyn os byddwn yn penderfynu ei fod yn ymwneud â rhywbeth [nad yw'n effeithio ar y sawl sy'n gwneud y gŵyn fel myfyriwr](#).
- 6.2. Efallai y byddwn yn penderfynu peidio ag adolygu cwyn os ydym o'r farn nad oes i'r gŵyn [unrhyw ddiben difrifol, neu y bwriedir iddi achosi aflonyddwch, neu os yw'r myfyriwr yn ceisio datrysiaid afrealistig](#).
- 6.3. Gallwn benderfynu peidio ag adolygu cwyn os credwn y byddai gwneud hynny'n [niweidio'n sylweddol ein gallu i gynnal ein prosesau yn effeithiol](#).

## 7. Cwblhau prosesau mewnol y darparydd addysg uwch

- 7.1. Ni fyddwn yn adolygu cwyn oni bai bod y darparydd addysg uwch wedi cael y cyfle i edrych arno'n gyntaf. Mae hyn yn golygu bod angen i'r myfyriwr fod wedi [cwblhau prosesau mewnol y darparydd](#) fel arfer cyn cwyno i ni.
- 7.2. Bydd y darparydd addysg uwch yn anfon llythyr at y myfyriwr yn cadarnhau pryd mae'r myfyriwr wedi cwblhau prosesau mewnol y darparydd. Gelwir y llythyr hwn yn "[Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau](#)" a rhaid iddo gydymffurfio â'n [Canllawiau ar Lythrau Cwblhau Gweithdrefnau](#).
- 7.3. Mewn [amgylchiadau eithriadol](#) gallwn benderfynu adolygu cwyn pan nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau prosesau mewnol y darparydd addysg uwch a/neu pan nad oes ganddo [Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau](#).
- 7.4. Ni fyddwn fel rheol yn adolygu cwyn sy'n deillio o wybodaeth neu dystiolaeth a ddaeth i law'r myfyriwr ar ôl dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau neu, lle na dderbyniwyd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, mwy na 28 diwrnod ar ôl i'r unigolyn beidio â bod yn fyfyriwr.

## 8. Terfynau amser

- 8.1. Ni allwn adolygu cwyn oni bai ein bod yn [derbyn Ffurflen Gwyno](#) gan y myfyriwr o fewn **12 mis** o'r dyddiad y dywedodd y darparydd addysg uwch wrth y myfyriwr beth oedd ei benderfyniad terfynol. Bydd y cyfnod o 12 mis fel arfer yn dechrau o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

### PROSES ADOLYGU

## 9. Beth mae adolygiad yn ei olygu?

- 9.1. Pan fyddwn wedi penderfynu y gallwn ystyried cwyn, rydym yn ei adolygu. Mae hyn yn golygu cael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniad, a gall gynnwys ceisio [setlo](#) y gŵyn.
- 9.2. Nid oes rhaid i'n hadolygiad ddilyn yr un rheolau tystiolaeth ag achosion cyfreithiol ac nid oes rhaid i ni ddilyn penderfyniadau a wnaethom ynghylch cwynion eraill.

## 10. Ystyriaeth gychwynnol o'r gŵyn

- 10.1. Fel arfer, dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, trwy gyflwyno'r [Ffurflen Gwyno](#) wedi'i chwblhau, ynghyd â dogfennau perthnasol.
- 10.2. Byddwn yn anfon copi o'r Ffurflen Gwyno a, lle bo'n briodol, y dogfennau sy'n cyd-fynd â hi, at y darparydd addysg uwch yn ystod y cam hwn yn y broses.
- 10.3. Byddwn yn penderfynu a yw'r gŵyn yn un y gallwn ei hadolygu o dan y Rheolau hyn.
- 10.4. Efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth gan y myfyriwr a/neu'r darparydd addysg uwch i'n helpu ni i benderfynu a allwn adolygu'r gŵyn.

- 10.5. Byddwn yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparydd addysg uwch o fewn tair wythnos i dderbyn y Ffurflen Gwyno, neu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, p'un ai allwn ni adolygu'r gŵyn ai peidio. Os penderfynwn na allwn adolygu'r gŵyn, neu rannau ohoni, byddwn yn esbonio pam.
- 10.6. Gall y myfyriwr neu'r darparydd addysg uwch ofyn i ni [ailystyried ein penderfyniad](#) ynglŷn â'n gallu i adolygu'r gŵyn (neu rannau ohoni) drwy ysgrifennu atom o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad. Bydd [adolygydd](#) gwahanol yn ailystyried y penderfyniad ac yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparydd addysg uwch beth yw'r canlyniad.

## 11. Yr adolygiad

- 11.1. Pan fyddwn wedi penderfynu bod y gŵyn yw un y gallwn ei hadolygu, byddwn yn penderfynu sut i gynnal yr adolygiad ac a oes angen rhagor o wybodaeth arnom.
- 11.2. Byddwn yn adolygu'r gŵyn drwy edrych ar y dogfennau y mae'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch wedi eu hanfon atom. Ni fyddwn yn cynnal [gwrandawriad](#) na [chyfarfod](#) wyneb yn wyneb â'r myfyriwr a/neu'r darparydd addysg uwch oni fyddwn o'r farn bod angen gwneud hynny.
- 11.3. Lle bo'n briodol, gallwn ar unrhyw adeg chwilio am ffordd o [setlo](#) y gŵyn mewn ffordd y mae'r darparydd addysg uwch a'r myfyriwr yn cytuno arni. Gall hyn gynnwys cyfeirio'r gŵyn at [gyfryngwr](#) os yw'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch yn cytuno i hynny. Rhoddir amser i'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch ystyried y setliad arfaethedig cyn penderfynu a ddylid ei dderbyn.

## 12. Casglu gwybodaeth ar gyfer adolygiad

- 12.1. Pan fyddwn wedi penderfynu bod cwyn yn un y gallwn ei adolygu, byddwn bob amser yn:
- 12.1.1. Rhoi cyfle i'r darparydd addysg uwch wneud sylwadau ar y Ffurflen Gwyno ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig;
  - 12.1.2. Rhoi cyfle i'r myfyriwr ymateb i sylwadau'r darparydd addysg uwch ar y gŵyn.
- 12.2. Gallwn ofyn i'r myfyriwr a/neu'r darparydd addysg uwch ateb cwestiynau penodol a/neu ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol.
- 12.3. Fel rheol, byddwn yn rhoi cyfle i'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch roi sylwadau ar yr wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr adolygiad lle mae hynny'n berthnasol i'n penderfyniad.
- 12.4. Rhaid i'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth a wnawn yn ystod ein hadolygiad.
- 12.5. Pan ofynwn i'r myfyriwr neu'r darparydd addysg uwch am wybodaeth neu sylwadau, byddwn yn gosod [terfyn amser](#) ar gyfer ymateb. Fel arfer bydd y terfyn amser yn 14 neu 28 diwrnod, ond gall fod yn fyrrach neu'n hwy yn dibynnu ar yr hyn yr ydym yn gofyn amdano. Efallai y byddwn yn cynnig [estyniad](#) i'r terfyn amser lle rydym yn ystyried hynny i fod yn briodol.
- 12.6. Os [nad yw'r](#) darparydd addysg uwch [yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani](#) yn ystod ein harolwg, neu'n methu â'i darparu o fewn y terfynau amser a bennwyd, gall y Dyfarnwr Annibynnol roi gwybod i'r Bwrdd, a gall ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blyneddol a/neu drwy ddulliau eraill.
- 12.7. Byddwn yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparydd addysg uwch pan fyddwn ni wedi derbyn yr [holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn](#).

## 13. Deilliant y Gŵyn

- 13.1. Pan fyddwn yn penderfynu bod gennym yr holl wybodaeth a thystiolaeth sydd ei angen arnom i ni wneud penderfyniad, byddwn yn paratoi a chyhoeddi [Deilliant y Gŵyn](#).
- 13.2. Byddwn yn anfon [Deilliant y Gŵyn](#) i'r myfyriwr a'r darparydd addysg uwch cyn gynted ag y gallwn o fewn rheswm. Fel rheol bydd hyn o fewn 90 diwrnod i benderfynu ein bod wedi derbyn yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn. Efallai y byddwn yn ymestyn y cyfnod o 90 diwrnod os byddwn yn penderfynu bod y gŵyn yn [eithriadol o gymhleth](#). Os ydym yn gwneud hyn, byddwn yn ysgrifennu at y myfyriwr a'r darparydd addysg uwch i esbonio hynny ac i ddweud wrthynt pryd y disgwyliwn gwblhau'r adolygiad.
- 13.3. Bydd Deilliant y Gŵyn yn amlinellu ein penderfyniad bod [Cyfiawnhad am y Gŵyn, Rhywfaint o Gyfiawnhad neu Ddim Cyfiawnhad](#), a'r rhesymau dros y penderfyniad.
- 13.4. Wrth wneud ein penderfyniad ynghylch y gŵyn, efallai y byddwn yn ystyried a oedd y darparydd addysg uwch wedi gweithredu ei reoliadau yn briodol ac wedi dilyn ei weithdrefnau; hefyd a oedd penderfyniad y darparydd addysg uwch yn rhesymol ai peidio.
- 13.5. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi Deilliant y Gŵyn i gofnodi manylion setliad neu gyfryngu, neu i gadarnhau bod cwyn wedi'i dynnu'n ôl neu ei derfynu.

## 14. Argymhellion ac awgrymiadau

- 14.1. Pan fyddwn yn penderfynu bod Cyfiawnhad am y Gŵyn neu Rywfaint o Gyfiawnhad, gallwn wneud [Argymhelliad](#) neu Argymhellion y dylai'r darparrydd addysg uwch eu dilyn.
- 14.2. Efallai y bydd yr Argymhellion a wnawn yn wahanol i ddeiliant y gallai Llys eu hawgrymu drwy weithredu rheolau cyfreithiol.
- 14.3. Dyma rai enghreifftiau o'r math o Argymhelliad y gallem ei wneud:
- 14.3.1. Dylid cyfeirio'r gŵyn yn ôl at y darparrydd addysg uwch i ailystyried, am nad yw wedi dilyn ei weithdrefnau mewnol yn gywir, ac y mae'n bosib bod hynny wedi effeithio'n ddifrifol ar y deiliant;
  - 14.3.2. Dylai'r darparrydd AU weithredu mewn ffordd rydym yn ei hystyried i fod yn deg dan yr amgylchiadau;
  - 14.3.3. Dylai'r darparrydd AU newid y ffordd y mae'n trafod cwynion;
  - 14.3.4. Dylai'r darparrydd AU newid ei weithdrefnau neu ei reoliadau mewnol.
  - 14.3.5. Dylai'r darparrydd AU wneud taliad i'r myfyriwr a allai gynnwys iawndal am ofid, straen ac anghyfleuster;
  - 14.3.6. Dylai'r darparrydd AU ymddiheuro i'r myfyriwr am yr hyn sydd wedi mynd o'i le;
  - 14.3.7. Dylid ystyried y gŵyn mewn [fforwm arall](#).
- 14.4. Pan fyddwn yn bwriadu gwneud Argymhellion, byddwn yn anfon copi o'r Argymhellion arfaethedig, ynghyd â'n rhesymau dros eu cynnig, i'r myfyriwr a'r darparrydd addysg uwch gyda Deiliant y Gŵyn.
- 14.5. Gall y myfyriwr a'r darparrydd addysg uwch wneud sylwadau ar yr Argymhellion arfaethedig, a bydd ganddynt 14 diwrnod i wneud hynny. Efallai y byddwn yn [ymestyn yr amser ar gyfer rhoi sylwadau ar yr Argymhellion arfaethedig](#) lle rydym o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.
- 14.6. Unwaith y bydd y terfyn amser ar gyfer rhoi sylwadau ar yr Argymhellion arfaethedig wedi mynd heibio, ac rydym wedi ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law, byddwn yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparrydd addysg uwch ein bod wedi cadarnhau'r Argymhellion, neu'n nodi ein Hargymhellion diwygiedig.
- 14.7. Disgwylw'n i'r darparrydd addysg uwch gydymffurfio'n llawn ag unrhyw Argymhellion a wnawn, a hynny o fewn y terfynau amser a osodwyd gennym, ac i roi gwybod i ni pan fydd wedi gwneud hynny.
- 14.8. Gall y myfyriwr ddewis a yw'n fodlon derbyn yr Argymhellion ai peidio.
- 14.9. Os yw'r darparrydd addysg uwch yn gwneud cynnig i'r myfyriwr yn unol â'n Hymgymhellion a bod y myfyriwr yn derbyn y cynnig fel setliad llawn a therfynol o'u cwyn, ni fydd y myfyriwr fel arfer yn gallu cyflwyno achos cyfreithiol ynghylch yr un materion.
- 14.10. Os yw'r Dyfarnwr Annibynnol yn penderfynu nad yw'r darparrydd addysg uwch wedi [cydymffurfio â'n Hargymhellion](#) bydd yn hysbysu'r Bwrdd a bydd yn cyhoeddi gwybodaeth amdano yn yr Adroddiad Blynyddol a/neu drwy ddulliau eraill.
- 14.11. Gallwn wneud [awgrymiadau](#) mewn Deiliant unrhyw Gŵyn y dylai'r darparrydd addysg uwch ystyried cymryd camau gweithredu neu ddiwygio ei weithdrefnau neu reoliadau mewnol.

## 15. Cwblhau'r adolygiad

- 15.1. Mae'r broses adolygu wedi'i chwblhau:
- 15.1.1. Pan benderfynwn na allwn edrych ar gŵyn o dan Reol 10.5 neu os cadarnheir y penderfyniad hwnnw yn dilyn ailystyriaeth o dan Reol 10.6;
  - 15.1.2. Pan benderfynwn derfynu cwyn o dan Reol 16.1, neu os cadarnheir y penderfyniad hwnnw yn dilyn ailystyriaeth o dan 16.3;
  - 15.1.3. Pan fydd y myfyriwr a'r darparrydd addysg uwch yn cadarnhau eu bod yn cytuno i'r setliad;
  - 15.1.4. Pan gyhoeddir Deiliant y Gŵyn o dan Reol 13.1 os na wneir Argymhellion; neu
  - 15.1.5. Pan fyddwn yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparrydd addysg uwch bod ein Hargymhellion yn cael eu cadarnhau, neu ein bod yn mynd ati i lunio Argymhellion diwygiedig o dan Reol 14.6.
- 15.2. Gallwn ailagor neu [barhau ag adolygiad](#) a chyhoeddi Deiliant newydd i'r Gŵyn a / neu Argymhellion diwygiedig, os penderfynwn fod rheswm da dros wneud hynny oherwydd:
- 15.2.1. Ein bod wedi derbyn [tystiolaeth newydd](#) a allai wneud gwahaniaeth i ddeiliant yr adolygiad, ac na allai'r darparrydd addysg uwch na'r myfyriwr fod yn rhesymol wedi'i rhoi i ni ynghynt; neu
  - 15.2.2. Mae gennym reswm dros gredu y gallai fod [camgymeriad yn Neilliant y Gŵyn sydd wedi effeithio ar y canlyniad neu a allai fod wedi effeithio'n ddifrifol ar ddeiliant](#) yr adolygiad.
- 15.3. Fel rheol, rhaid i unrhyw gais i ailagor yr adolygiad gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i ddyddiad Deiliant y Gŵyn, neu'r dyddiad y byddwn yn cadarnhau ein Hargymhellion lle rydym wedi gwneud Argymhellion.

## 16. Atal, Terfynu a Thynnu'n ôl

- 16.1. Efallai y byddwn yn [terfynu](#) neu'n [atal](#) adolygiad os ydym yn penderfynu:
- 16.1.1. Bod yr wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod y gŵyn yn dod o fewn Rheolau 5 neu 6;
  - 16.1.2. Bod y darparwydd AU wedi [ymdrin â'r gŵyn yn foddhaol](#);
  - 16.1.3. Bod y darparwydd addysg uwch wedi gwneud [cynnig rhesymol i setlo](#) y gŵyn, ac mae'r myfyriwr wedi ei wrthod. O dan yr amgylchiadau hynny, gallwn ofyn i'r darparwydd addysg uwch ailadrodd y cynnig i'r myfyriwr a'i gadw'n agored am gyfnod rhesymol o amser;
  - 16.1.4. Nid yw'r myfyriwr wedi cydymffurfio â'r terfynau amser a osodwyd gennym, neu mae wedi oedi'n afresymol yn ystod ein hadolygiad;
  - 16.1.5. Bod y myfyriwr wedi ymddwyn yn ymosodol, yn sarhaus, neu'n afresymol, neu mae wedi gofyn am bethau afresymol yn ystod ein hadolygiad;
  - 16.1.6. Mae'r myfyriwr wedi ceisio ein camarwain ni neu'r darparwydd addysg uwch am eu cwyn;
  - 16.1.7. Nid oes bellach modd cysylltu â'r myfyriwr; neu
  - 16.1.8. (atal yn unig) bod rhesymau da eraill dros wneud hynny.
- 16.2. Os yw'r myfyriwr wedi penodi [Cynrychiolydd](#), gallwn atal ein hadolygiad a/neu wrthod caniatáu i'r Cynrychiolydd weithredu ar ran y myfyriwr os penderfynwn:
- 16.2.1. Nad yw'r Cynrychiolydd yn gweithredu er lles gorau'r myfyriwr;
  - 16.2.2. Mae'r Cynrychiolydd wedi ceisio ein camarwain ni a/neu'r myfyriwr;
  - 16.2.3. Nid yw'r Cynrychiolydd wedi cydymffurfio â'r terfynau amser a osodwyd gennym, neu mae wedi oedi'n afresymol yn ystod ein hadolygiad;
  - 16.2.4. Mae'r Cynrychiolydd wedi gweithredu'n ymosodol, yn sarhaus neu'n afresymol, neu wedi gofyn am bethau afresymol yn ystod ein hadolygiad;
  - 16.2.5. Mae'r Cynrychiolydd wedi cael ei gamarwain gan y myfyriwr.
- 16.3. Os byddwn yn penderfynu atal neu derfynu ein hadolygiad, gall y myfyriwr ofyn i ni [ailystyried ein penderfyniad](#) drwy ysgrifennu atom o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad. Bydd [Adolygydd](#) gwahanol yn ailystyried y penderfyniad ac yn dweud wrth y myfyriwr a'r darparwydd addysg uwch beth yw'r canlyniad.
- 16.4. Gall y myfyriwr [dynnu'n ôl](#) ei gŵyn ar unrhyw adeg yn ystod yr adolygiad.

## 16A Rheolau Ychwanegol sy'n berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr

**Nodyn: Mae Rheol 16A mewn grym o 19 Ebrill 2021**

- 16A.1 Mae'n bosib y byddwn yn cyhoeddi [Rheolau ychwanegol sy'n berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr](#).
- 16A.2 At ddiobenion Rheol 16A.1, mae Cwyn gan Grŵp Mawr yn golygu cwyn neu gyfres o gwynion cysylltiedig y gallwn eu hadolygu o dan y Rheolau hyn, wedi'u cyflwyno gan nifer sylweddol o fyfyrwyr mewn darparwydd am yr un digwyddiadau neu amgylchiadau.
- 16A.3 Byddwn yn penderfynu a ddylid ystyried cwyn o dan y Rheolau ar gyfer Cwynion gan Grwpiau Mawr.

## 17. Taliadau a Ffioedd

- 17.1. Ni fyddwn yn codi unrhyw ffi ar fyfyrwr am adolygu ei gŵyn.
- 17.2. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch dalu [tanysgrifiad blynyddol](#) i ni, a all gynnwys [elfen sy'n gysylltiedig ag achosion](#), yn seiliedig ar [raddfa a gyhoeddir](#). Pennir y tanysgrifiad a'r elfen sy'n gysylltiedig ag achosion gan y [Bwrdd](#).

## 18. Aelodau sydd wedi gwneud cais i ymuno â SDA

- 18.1. Efallai y byddwn yn cyhoeddi [Rheolau ychwanegol](#) a fydd yn berthnasol i [ddarparwyr addysg uwch nad ydynt yn sefydliadau cymwys ac sydd wedi ymuno â'n cynllun cwynion](#).

### RÔL Y BWRDD A'R DYFARNWR ANNIBYNNOL

## 19. Rôl y Bwrdd

- 19.1. Rôl y Bwrdd parthed y Rheolau hyn yw:
- 19.1.1. Diogelu annibyniaeth y cynllun a swyddogaeth y [Dyfarnwr Annibynnol](#).
  - 19.1.2. Adolygu, a lle bo hynny'n briodol, diwygio'r Rheolau hyn.
  - 19.1.3. Ystyried sut i ddelio â diffyg cydymffurfiaeth y darparwydd addysg uwch a ddaw i'w sylw o dan Rheolau 12.6 a 14.10.

19.2. Nid yw'r Bwrdd yn ymwneud ag adolygu cwynion unigol a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

## 20. Rôl y Dyfarnwr Annibynnol

20.1. Penodir y Dyfarnwr Annibynnol gan y Bwrdd, ac y mae'n atebol i'r Bwrdd.

20.2. Bydd y Dyfarnwr Annibynnol yn gweithredu'n annibynnol o'r Bwrdd, darparwyr addysg uwch a myfyrwyr wrth adolygu a gwneud penderfyniad parthed unrhyw gwynion o dan y Rheolau hyn.

## 21. Cyhoeddi a rhannu gwybodaeth

21.1. Byddwn yn paratoi a chyhoeddi [Adroddiad Blynyddol](#) bob blwyddyn, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am:

21.1.1. Y cwynion a dderbyniwyd;

21.1.2. Y Deilliannau Cwynion a gyhoeddwyd a'r Argymhellion a wnaed;

21.1.3. I ba raddau y dilynwyd yr Argymhellion a wnaed (gyda gwybodaeth am ddarparwyr addysg uwch nad ydynt wedi cydymffurfio ag Argymhelliad);

21.1.4. Sut yr ydym wedi defnyddio incwm o danysgrifiadau blynyddol a'r elfen sy'n gysylltiedig ag achosion.

21.2. Gallwn gyhoeddi, yn ôl ein disgrisiwn, grynodedbau o gwynion a gawsom ac ystyried lle:

21.2.1. ym marn y Dyfarnwr Annibynnol y byddai eu cyhoeddi er [Budd y Cyhoedd](#); ac

21.2.2. mae'r broses adolygu yn gymhleth.

21.2.3. Gall y crynodebau a gyhoeddir enwi'r darparwydd addysg uwch dan sylw, ond ni fydd yn enwi'r myfyriwr.

21.3. Byddwn yn cyhoeddi [canllawiau](#) ynghylch amseriad a chynnwys unrhyw gyhoeddiad o dan Reol 21.2, ble a sut y caiff ei gyhoeddi, a'r cyfle i ddarparwydd addysg uwch wneud sylwadau ar y cyhoeddiad arfaethedig.

21.4. Gallwn gyhoeddi crynodebau o gwynion ar ffurf ddiennw.

21.5. Gallwn gyhoeddi unrhyw wybodaeth ystadegol neu wybodaeth arall yr ydym yn ei hystyried i fod yn berthnasol ac yn gymesur.

21.6. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch lunio ac anfon atom unrhyw wybodaeth berthnasol yr ydym yn gofyn amdani er mwyn ein helpu i gyflawni ein gwaith.

21.7. Efallai y byddwn yn cynnal trafodaethau gyda chyrff neu unigolion priodol eraill sy'n rhannu'r un buddiannau ynghylch cwynion mewn addysg uwch. Lle bo hynny'n briodol, gall hyn gynnwys gwneud cytundebau ffurfiol i gyfnewid gwybodaeth.

21.8. Pan fyddwn yn penderfynu bod gan gorff hawl neu fuddiannau perthnasol i dderbyn gwybodaeth am weithrediad y cynllun, gallwn ddarparu'r wybodaeth honno. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gwynion a dderbyniwyd a/neu a adolygwyd; Deilliannau Cwynion a gyhoeddwyd ac Argymhellion a wnaed; materion cydymffurfiaeth neu fethu a chydymffurfio. Yn benodol, byddwn yn cydweithredu â chyrff sy'n ymwneud â rheoleiddio, cyllido neu oruchwylio safonau o fewn y sector addysg uwch mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

21.9. Bydd yr wybodaeth a gyhoeddir neu a ddarperir o dan Reol 21, parthed data personol, yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data perthnasol.

21.10. Efallai y byddwn yn cyhoeddi canllawiau:

21.10.1. parthed y Rheolau hyn,

21.10.2. er mwyn hyrwyddo'r cynllun,

21.10.3. er mwyn hyrwyddo arfer da, ac

21.10.4. ar faterion eraill yr ydym yn eu hystyried yn briodol, yn gyson â phwrpas SDA.

## CYFRAITH LLYWODRAETHU A NEWIDIADAU

### 22. Newidiadau i'r Rheolau

Gellir newid y Rheolau hyn o bryd i'w gilydd yn unol â Rheol 19.

### 23. Y Gyfraith

Caiff y Rheolau hyn eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.